

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2025

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD MEWN MODD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MERCHER 19 CHWEFROR 2025 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cyngorydd N Farr – Cadeirydd

E L P Caparros

P Davies

JC Spanswick

J Gebbie

Yn Bresennol yn Rhithwir

A R Berrow
M Lewis

W R Goode

RL Penhale-Thomas

AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford, D M Hughes, J Llewellyn-Hopkins, A Wathan ac E D Winstanley, M Jones

Swyddogion:

Neil Arbery
Zoe Edwards
Michael Pitman
Susan Roberts

Grŵp Ysgolion - Swyddog Arweiniol Datblygu Strategol (Cynradd)
Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion

Datgan Buddiannau

Y Cyngorydd Neelo Farr – Eitem 4 ar yr Agenda, buddiant personol yn eitem 4 ar yr Agenda fel llywodraethwr ysgol Ysgol Gynradd a Chyfun Porthcawl

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2025

Y Cyngorydd Rhys Goode – Eitem 4 ar yr Agenda, buddiant personol gan fod ei bartner yn rhedeg cwmni hyfforddi LHDT ar gyfer ysgolion
Y Cyngorydd Amanda Williams – Eitem 4 ar yr Agenda, buddiant personol yn eitem 4 ar yr Agenda, gan ei bod hi bellach yn Llywodraethwr Cymunedol ac nid yn Llywodraethwr AALI yn Ysgol Gynradd Coety

56. Cymeradwyo Cofnodion

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06/11/2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Chwefror 2025

57. Diweddariad ar Waith Cydraddoldeb mewn Ysgolion (Blwyddyn Ysgol 2023-2024)

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgor Cabinet Cydraddoldeb (PCC) am ddigwyddiadau hiliol a/neu wahaniaethol mewn ysgolion, fel y'u monitrwyd gan ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd ar Ddigwyddiad Hiliol. Esboniodd bod yr awdurdod lleol wedi gwella cyfathrebu ag ysgolion ynghylch adrodd ar ddigwyddiadau o wahaniaethu, ynghyd â gwybodaeth am arfer da mewn ysgolion. Tynnodd sylw at Atodiad A a oedd yn cynnwys yr achosion o wahaniaethu a adroddwyd gan ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol. Bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 43 i 67. Roedd un Aelod yn bryderus am y diffyg ystadegau sy'n ymwneud yn benodol â gwahaniaethu a bwlio LHDT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol). Credai fod y maes hwn yn cael ei israddio neu ei grwpio gyda digwyddiadau hiliol, nad oedd yn briodol. Roedd pob agwedd ar wahaniaethu yn bwysig ac fe ddylid eu cofnodi ar wahân a'u hadrodd ar wahân i sicrhau eu bod yn cael sylw llawn. Ychwanegodd fod angen darparu hyfforddiant ar draws pob ysgol a bod angen inni sicrhau bod yr holl athrawon a staff yn deall y gwahaniaethau rhwng pob math o wahaniaethu. Byddai hyn yn caniatáu i'r ystadegau fod yn llawer mwy trylwyr, unffurf ac yn gynrychioliadol o'r hyn oedd yn digwydd ar draws y fwrdeistref gan nad yw'r ystadegau ar hyn o bryd yn cynrychioli lefelau na mathau gwirioneddol o
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2025

	wahaniaethu. Gofynnodd Yr Arweinydd, mewn perthynas â bwlio a gwahaniaethu, fod angen gwahaniad clir yn y ffurflen ar gyfer y rhain. Gallai rhywbeth sy'n wahaniaethu beidio â bod yn fater rheolaidd yn ogystal â gallai mater o fwlio beidio â bod yn wahaniaethu. Pwysleisiodd bwysigrwydd adrodd yn llawn ac yn glir ar y digwyddiad i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion cywir yn y ffordd gywir tra'n sicrhau nad oes unrhyw faterion yn llithro drwy'r rhwyd. <u>PENDERFYNWYD</u>: Bod Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb yn nodi'r diweddariad blynyddol ar ddigwyddiadau hiliol a/neu wahaniaethol mewn ysgolion.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Chwefror 2025

58. Eitemau Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Nid oedd unrhyw eitemau brys i'w trafod.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Chwefror 2025

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30